

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaef a Bontddu a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Mehefin 11, 2019 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Gareth Ellis.  
Hefyd Heddwas Gareth Jones a Henry M. Edwards.

Ar ddechrau'r cyfarfod cafwyd trafodaeth â Heddwas Gareth Jones ynglŷn â goryrru wrth Ysgol Llanelltyd. Gyda'r heddlu ar y safle mwy aml mae goryrru wedi gostwng. Mae Gan Bwyll am wneud ymchwiliad ar y safle i benderfynu os mae angen cerbyd Gan Bwyll yno.

**1. Ymddiheuriadau:** Geraint Rowlands, Llinos Williams, John Hughes a Peredur Jenkins.

**2. Datgan diddordeb:**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 14, 2019**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 14, 2019**

Eitem 8.a. Llythyr ateb (17/5/2019) oddi wrth y Parc gyda'r manylion o'r 'Glamping Pods'.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Eitem 6.dd. Cafwyd wybod yn cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru bod y £150 i gynghorwyr yn lwfans ac nid tal ac felly mae'n drethadwy.

**5. Materion Ariannol**

a. Derbyniwyd adroddiad Archwiliad Mewnol (22/5/2019). Dyma'r farn yr Archwiliad:

Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Llanelltyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:

Methant i fabwysiadu yn ffurfiol y Rheolau Sefydlog.

Diffyg cynllunio yn deillio o fethiant i baratoi cyllideb flynyddol.

Methiant i gyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau aelodau (fel sydd ofynnol dan adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000), yn ogystal â hysbysiadau cyffredinol ar y wefan.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MEHEFIN 11, 2019

Anfonwyd copi o'r Adroddiad i'r aelodau.

Rhodddwyd 'Hysbysiad o bennau dyddiad ar gyfer hawliau etholwyr' ar hysbysfyrddau y gymuned ac ar wefan y Cyngor.

Arwyddwyd Ffurflen Flynyddol cwblhawyd gan yr Archwilydd (gweler Cofnodion Ebrill 9, 2019, Eitem 5.e.).

Penderfynwyd paratoi ein cyllideb yn ein cyfarfod mis Tachwedd.

b. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2018 - Mawrth 31, 2019:

Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £281.53.

Penderfynwyd talu'r costau.

c. Balans yn y banc ar 29 Mai, 2019: £9,850.19.

## **7. Mynwent Llanelltyd**

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Copi o dudalen 'Rhestr o Achosion Cydymffurfiaeth' derbyniwyd gan Gethin Williams (15/5/2019). Materion yn y gymuned yw Hawddamor, Tai Cynhaeaf (yn ymwneud â gosod Pod o fewn yr ardd – mae wedi cael ei ganiatau) ac Anwylfa, Tai Cynhaeaf (yn ymwneud â gwaith cloddio yn yr ardd – mae angen cais cynllun).

b. Ceisiadau cynllunio.

i. NP5/65/288C. Amnewid to gwydr am do llechi gan gynnwys gosod 4 ffenest do. Bryn y Môr, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

ii. NP5/65/360. Cais rhannol ôl-weithredol i greu lle parcio oddi ar y lôn ac adeiladu wal gynnal. Anwylfa, Bontddu.

Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais. Mae hyn oherwydd nid yw'r bobol y gymuned yn fodlon gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud nac gyda'r ffordd mae'r gwaith yn cael ei wneud. Hefyd, mae'r fynedfa mewn lle peryglus gan greu peryglon i ddefnyddwyr y ffordd.

c. Llythyr (29/5/2019). Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar Ganllaw Cynllunio Atodol Drafft ymwneud a CCA 8: Llety Ymwelwyr. Maent yn darparu gwybodaeth bellach i gefnogi polisiau Awdurdod Gynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiadwyd ar 6/2/2019. Mae'r wybodaeth ar gael yn swyddfa Penrhyndeudraeth, llyfrgelloedd cyhoeddus, wefan [https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidence?name=Os mae ymatebion maent eu hangen cyn 11/7/2019](https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidence?name=Os%20mae%20ymatebion%20maent%20eu%20hangen%20cyn%2011/7/2019).

ch. Penderfynwyd i Simon Evans gwneud ymoliadau gyda'r Awdurdod i gael gwybod pam nad ydynt yn rhoi gwybod eu penderfyniadau i geisiadau cynllunio fel roedd yn cael ei wneud.

## **9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (20/5/2019) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o 'Model Broctocol ar Gyfer Datrysiadau Anffurfiol' ar gyfer delio â chwynion lefel isel a dderbynnir o fewn y Cyngor, h.y. materion rhwng aelodau / swyddogion.

Penderfynwyd mabwysiadu'r protocol a'i anfon i Elfed ap Gomer ei roi ar ein gwefan.

Penderfynwyd adolygu ein polisiau yn ein cyfarfod mis Medi.

b. Llythyr (22/5/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith tyllu a newid colofnau golau stryd ar yr A496 ym Montddu.

c. Llythyr (25/5/2019) oddi wrth Clwb Moduro Harlech a'r Cylch yn rhoi gwybod cynhelir rali geir y clwb ar nos Sadwrn 22 / bore Sul 23, Mehefin 2019. Bydd y ceir yn cychwyn o Drawsfnnydd am 10.00yh ac yna'n teithio 85 milltir ar hyd ffyrdd Meirionnydd

ch. Llythyr (3/6/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu cynhadledd Arfer Arloesol bydd yn cael ei gynnal ar Gorffennaf 10, 2019 yn Maes y Sioe Amaethyddol. Amgáu mae'r Agenda.

d. Llythyr (4/6/2019) oddi wrth Un Llais Cymru. Mae ganddynt 7 modiwl dysgu ar-lein ar gael ar eu gwefan i'w defnyddio gan gynghorydd. Y 7 modiwl yw: Cod Ymddygiad, Y Cyngor yn Gyflogydd, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Iechyd a Diogelwch, Sesiwn Gynefino, Cyllid Llywodraeth Leol, Deall y Gyfraith. Maent ar gael ar [http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/hyfforddiant\\_ar-lein\\_sylfaenol-16740.aspx](http://www.unllaiscymru.org.uk/OVWWeb-CYM/hyfforddiant_ar-lein_sylfaenol-16740.aspx)

e. Llythyr (7/6/2019) oddi wrth Mrs L. Talor, Aberystwyth (nain i blant). Mae'n rhoi gwybod mae ysgolion, sgaffaldiau, peiriant cymysgu concrit wrth y lle chwarae Bro Cymmer ac fe all rhain fod yn beryglus i blant. Mae hi o'r farn mai adeiladwr toeau sy'n berchenog arnynt. Mae hi'n gofyn pam bod y perchenog yn cael yr hawl i adael ei beiriannau ar faes parcio'r Cyngor.

Trafodwyd y llythyr a phenderfynwyd ddim mynd â'r mater ymhellach oherwydd nid yw'r wybodaeth yn gyflawn.

f. Llythyr (7/6/2019) oddi wrth Mrs Shelagh Bigg yn rhoi gwybod nid hi fydd ymhellach Trysorydd Neuadd Bentref Bontddu. Y Trysorydd newydd yw Mr J. Pyke, Brynmor, Bontddu.

ff. Llythyr (10/6/2019) oddi wrth Rheolwr Stadau, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth gofynwyd at ddyfodol Toiledau Cyhoeddus Llanelltyd. Mae'r wybodaeth yn cynnwys adroddiad ar gyflwr y toiledau a'r brydles.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod nesaf.

g. Llythyr (11/6/2019) oddi wrth Priffyrdd gyda map yn dangos lleoliad y biniau halen yn y gymuned. (Gweler Eitem 10.b. yn Cofnodion Ebrill 9, 2019).

h. Llythyr (11/6/2019) oddi wrth Uned Gyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda manylion Rhybuddion Cyhoeddus ynglŷn â gorchymyn gwahardd a chyfyngu aros a manau parcio ar y stryd. Yn ein cymuned bydd 'deilydd bathodyn anabl yn unig' ar ochr ddeheuol ffordd A496 o flaen Ysgol Llanelltyd. Os mae gwrthwynebiad i'r gorchymyn maent ei angen erbyn 12/7/2019.

### **10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Llythyr (22/5/2019) i Rheolwr Llwybr, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Cymuned Llanelltyd fe gafwyd trafodaeth ynglŷn â'r broblem o or-yrru yn enwedig ar yr A496 o gyffordd yr A 470 sy'n pasio'r ysgol. Roedd yr heddlu yn bresennol.

Fe dynnwyd sylw fod cyfyngder gyrru o 40mya ar yr A470 yn y pentref ar y ffordd i'r gogledd a 30mya o'r gylchfan ar yr A496 i'r Bermo heibio'r ysgol. Barn y Cynghorwyr fod hyn yn ddryslyd i deithwyr ac maent yn gwneud cais i'r Asiantaeth i ostwng y cyflymder ar yr A470 i 30mya gan olygu y buasai hyn yn creu cysondeb ac yn llawer cliriach i deithwyr. Rwy'n cefnogi'r syniad yma a buaswn yn ddiolchgar petaech yn ystyried yr awgrym. Mae'r heddlu wedi bod yn mesur y cyflymder ar yr A496 drwy'r pentref ac yn gyson maent wedi cofnodi fod cyflymder y traffic sy'n pasio'r ysgol yn aml dros 30mya. Mae gan Lywodraethwyr yr ysgol a rhieni gryn ofid am ddiogelwch y disgyblion yn enwedig pan maent yn mynd a dod i'r ysgol. Mae'r Cyngor Cymuned yn eich gwahodd i'w cyfarfod i drafod eu gofidiau a'u pryderon.

Llythyr ateb (22/5/2019). Diolch am eich ymholiad. Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn gweithredu fel Asiant i Lywodraeth Cymru mewn cynnal a chadw, gweithredu a gwella'r rhwydwaith ffyrdd strategol ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Wrth weinyddu'r cytundeb hwn bydd materion sy'n cael eu hystyried yn rhai gweithredol yn cael eu hymateb iddynt yn uniongyrchol gan yr Asiant. Os yw'r materion yn cael eu hystyried i ymwneud â Pholisi neu Flaenoriaethu Gwaith yna bydd yr Asiant yn cyfeirio'r ymholiadau i Lywodraeth Cymru i'w ystyried ac ymateb.

Yn yr achos hwn mae eich ymholiad yn cael ei ystyried fel un Polisi neu Raglennu, felly rydym wedi anfon eich cais ymlaen i Lywodraeth Cymru i ymateb yn uniongyrchol i chwi maes o law. Bwriad Lywodraeth Cymru yw ymateb yn ôl i chwi oddi fewn 15 diwrnod gwaith.

### **11. Materion Brys**

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen sgubo ffordd Cwm Wnin.